# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## HND Peirianneg Fecanyddol



**Yn gryno**

Cyflwynir ein HND Peirianneg Fecanyddol Lefel 5 ar y cyd â Phrifysgol De Cymru (PDC), a byddwch yn graddio o'r brifysgol hon ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus.

Mae'r cwrs yn cynnig sylfaen gadarn yn y prif gysyniadau a sgiliau ymarferol sydd eu hangen yn y sector. Mae'r cwrs, sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol gan gyflogwyr, hefyd yn caniatáu astudio pellach ar lefel gradd a thu hwnt.

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

...y rheiny sydd eisiau gyrfa mewn Peirianneg, Dylunio, Gweithgynhyrchu neu Gynnal a Chadw

...yn datrys problemau'n dda

...y rheiny sydd eisiau cyflawni statws peiriannydd siartredig

...myfyrwyr sydd eisiau dod yn Beiriannydd Mecanyddol cymwys neu gymryd y camau nesaf o fewn y diwydiant hwn

...y rheiny sydd eisiau datblygu eu sgiliau a'u harbenigedd mewn Peirianneg Fecanyddol

**Cynnwys y cwrs**

Mae'r cwrs hwn yn cael ei gyflwyno ar y cyd a Phrifysgol De Cymru, felly, byddwch yn cael defnyddio holl gyfleusterau'r brifysgol, yn cynnwys llyfrgelloedd, campfeydd ac ati, a byddwch yn cael eich addysgu yn unol â safonau Prifysgol De Cymru gan ddarlithwyr sydd â PhD neu raddau Meistr yn y pynciau; Fodd bynnag, byddwch yn talu llawer iawn llai a chewch aros yn agos i le rydych yn byw neu'n gweithio.

Mae'r cwrs hwn yn cael ei gyflwyno ar y cyd a Phrifysgol De Cymru, felly, byddwch yn cael defnyddio holl gyfleusterau'r brifysgol, yn cynnwys llyfrgelloedd, campfeydd ac ati, a byddwch yn cael eich addysgu yn unol â safonau Prifysgol De Cymru gan ddarlithwyr sydd â PhD neu raddau Meistr yn y pynciau; Fodd bynnag, byddwch yn talu llawer iawn llai a chewch aros yn agos i le rydych yn byw neu'n gweithio.

Y nod yw creu peiriannydd gwybodus a chymwys tu hwnt a fydd yn bodloni gofynion diwydiant. Mae hon yn rhaglen alwedigaethol arbenigol sydd â phwyslais cryf ar waith.

Ceir cymysgedd o sesiynau damcaniaethol ac ymarferol ar y cwrs hwn. Byddwch yn astudio unedau, gan gynnwys:

Blwyddyn 1

Thermohylifau 2
Cynllunio Peirianneg Gynaliadwy
Hanfodion Rheoli a Pheirianneg Busnes

Blwyddyn 2

Systemau Rheoli ac Offeryniaeth
Gwyddoniaeth Fecanyddol 2
Prosesau Cynhyrchu

**Gofynion Mynediad**

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Rydym yn ystyried pob ymgeisydd ar sail unigol, a gallwch dderbyn cynnig yn seiliedig ar gymwysterau a phroffil personol, ond fel arfer byddech angen o leiaf un o'r canlynol.

HNC Peirianneg Fecanyddol neu gymhwyster lefel 4 gyfwerth
DD ar lefel Safon Uwch
Graddau DE ar lefel Safon Uwch, a gradd C ym Magloriaeth Cymru
Mynediad i Addysg Uwch lle'r ydych wedi cael Diploma Llwyddo gyda 45 Llwyddo

Yn ogystal â: Llwyddo mewn tri phwnc TGAU ar radd C neu uwch, gan gynnwys Mathemateg ac Iaith Saesneg (neu gyfwerth).

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Byddwch hefyd yn datblygu sgiliau cyflogadwyedd hanfodol megis hunanreolaeth, gweithio mewn tîm, ymwybyddiaeth o gwsmeriaid busnes, datrys problemau, cyfathrebu, rhifedd, ac agwedd gadarnhaol at waith.

Byddwch angen eich offer ysgrifennu eich hunan, h.y. ffolderi, rhanwyr pwnc, pinnau ysgrifennu, pensiliau, pren mesur a chyfrifiannell wyddonol.